# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

Dental Surgery Sinervo, Bethesda

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2017

Dyddiad cyhoeddi: 17 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-4734-9907-2



© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ..... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ..... 6

3. Yr hyn a ganfuom ..... 7

   Ansawdd profiad y claf ..... 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ..... 12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ..... 19

4. Beth nesaf? ..... 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ..... 22

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... 23

   Atodiad B – Cynllun gwella brys ..... 24

   Atodiad C – Cynllun gwella ..... 25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio pob gofal iechyd yng Nghymru**

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau yn fewnol ac allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu gyda dull effeithlon, effeithiol a chymesur.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

| | |
|---|---|
| Darparu sicrwydd: | Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal. |
| Hybu gwelliant: | Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da. |
| Dylanwadu ar bolisi a safonau: | Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer. |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Dental Surgery Sinervo, 3 Stryd Fawr, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3AE, ar 16 Mai 2017.

Edrychodd AGIC ar y ffordd yr oedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaethau a chanllawiau eraill perthnasol.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Dental Surgery Sinervo yn darparu gwasanaeth deintyddol cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion. Fodd bynnag, canfuwyd rhai mannau i'w gwella er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel
- Gwelsom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel
- Gwelsom fod y practis yn rheoli gwastraff yn briodol a diogel.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cofnodi nodiadau clinigol cleifion
- Dylid selio ymylon y llawr a'r arwynebau gwaith er mwyn ei gwneud yn haws i lanhau'r ystafell driniaeth a'r ystafell ddadheintio
- Mae angen i'r cyfleusterau dadheintio gyd-fynd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05
- Rheoli meddyginiaethau
- Cynnal ystod o archwiliadau clinigol gan gynnwys rheoli heintiau a phelydr-X
- Sicrhau bod ffeil benodol ar ddiogelwch ymbelydredd yn cael ei gweithredu
- Sicrhau bod bin gwaredu gwastraff iechydol yn cael ei ddarparu yn y toiled neillryw
- Cyflwyno cyfarfodydd staff rheolaidd a threfnu arfarniadau staff blynyddol
- Cyflwyno proses ffurfiol o gasglu barn y cleifion.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Dental Surgery Sinervo yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig ym Methesda, Bangor.

Mae tîm y practis yn cynnwys un deintydd ac un nyrs ddeintyddol.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol.

## Ansawdd profiad y claf

*Buom yn siarad â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle bo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwnaethom wahodd y cleifion i ddisgrifio eu profiadau i ni o ddefnyddio'r practis. Roedd yr adborth a gafwyd o'r holiaduron cleifion yn gadarnhaol ac yn cadarnhau bod y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i roi holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn gofyn barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Llenwyd a dychwelwyd cyfanswm o naw holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Mae'r gofal deintyddol rwyf wedi'i dderbyn bob amser yn rhagorol.'*
>
> *'Awyrgylch hyfryd a staff cyfeillgar iawn. Maent bob amser yn gwneud yn siŵr fy mod wedi ymlacio, ac mae'r driniaeth yn brydlon a phroffesiynol.'*
>
> *'Rwyf bob amser yn fodlon â'r driniaeth rwyf wedi'i chael. Mae'r staff yn gyfeillgar a phroffesiynol.'*

### Cadw'n iach

Dywedodd pob un o'r cleifion a oedd wedi cwblhau'r holiaduron eu bod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth o ddeunyddiau hybu iechyd deintyddol oedd yn y dderbynfa a'r ardal aros y gallai'r cleifion fynd â nhw adref i'w darllen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gynnig deunyddiau hybu iechyd deintyddol ar ffurf posteri a thaflenni.

## Gofal ag urddas

Roedd pob un o'r cleifion yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi'u cael yn y practis ac roedd pob claf yn teimlo ei fod wedi'i groesawu gan y staff.

Roedd gan y practis drefniadau i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys ardaloedd penodol i'r cleifion gael sgyrsiau preifat â'r staff. Roedd y galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn mewn ardal breifat oddi wrth y cleifion.

### Gwybodaeth cleifion

Cadarnhaodd pob claf a oedd wedi cwblhau'r holiadur ei fod bob amser yn credu ei fod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am ei driniaeth unigol.

Mae gan y practis ei daflenni gwybodaeth i gleifion ei hun, a oedd ar gael yn yr ystafell aros, ac mae gwybodaeth ar gael hefyd i gleifion ar ei wefan.

### Cyfathrebu'n effeithiol

O'r naw holiadur a gwblhawyd, dywedodd saith claf eu bod wedi gallu siarad â staff yn eu dewis iaith.

## Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn gwneud ymdrech i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol bob amser. Dywedodd pob claf a oedd wedi cwblhau'r holiaduron ei fod bob amser yn cael ei weld yn brydlon gan y deintydd.

Roedd y practis yn darparu triniaeth frys i'w gleifion. Os nad oedd y deintydd yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn, mae trefniant ar waith i bractis arall gerllaw ddarparu triniaeth frys y tu allan i oriau.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dangosodd yr ymatebion i holiaduron y cleifion fod pob un o'r cleifion yn credu ei fod wedi derbyn cyngor digonol ynglŷn â'i driniaeth unigol, ei fod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gafodd, a'i fod bob amser yn teimlo wedi'i groesawu.

Mae hanes meddygol y cleifion yn cael ei gofnodi yn ystod eu hymweliad cyntaf i'r practis a chawsant ein hysbysu bod y rhain yn cael eu cadarnhau ar lafar ym mhob apwyntiad. Fodd bynnag, nid yw'r ffurflenni hanes meddygol wedi'u cydlofnodi gan y deintydd. Gwnaethom hysbysu'r practis bod angen iddynt

sicrhau bod y ffurflenni hanes meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd ym mhob apwyntiad triniaeth. Awgrymwyd hefyd i'r practis y dylent ofyn i'r cleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol newydd bob dwy flynedd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r deintydd sicrhau bod ffurflenni hanes meddygol y cleifion yn cael eu cydlofnodi ym mhob apwyntiad triniaeth.

## Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Gall defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad i lefel llawr daear y practis a gallant gael mynediad i'r dderbynfa, yr ystafell aros a'r ystafell driniaeth.

## Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis bolisi cwynion a oedd wedi'i arddangos yn glir yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, nid oedd yr hysbysiad yn cynnwys manylion cyswllt yr awdurdod cofrestru na'r amserlen gywir ar gyfer ymdrin â chŵynion. Gwnaethom hysbysu'r practis ynglŷn â hyn a chafodd y polisi ei ddiwygio yn ystod ein hymweliad.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin â chŵynion ffurfiol ac anffurfiol. Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw gŵynion neu bryderon yn cael eu cofnodi yng nghofnodion unigol y cleifion. Er mwyn gallu nodi unrhyw themâu cyffredin, gwnaethom gynghori'r practis i gyflwyno ffeil benodol ar gyfer cwynion.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis o gasglu adborth gan gleifion. Dywedodd y practis wrthym nad oes ganddynt system ffurfiol ar waith i gasglu barn y cleifion. Fodd bynnag, mae cynlluniau ar waith i ddatblygu holiadur ar gyfer y cleifion. Dywedwyd wrth y practis y dylent arddangos dadansoddiad o'r adborth a dderbyniwyd yn yr ystafell aros er mwyn dangos i'r cleifion eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r ffordd o gyflenwi gwasanaeth.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gyflwyno ffeil gŵynion benodol i gofnodi'r holl gŵynion ffurfiol ac anffurfiol.

Cyflwyno proses ffurfiol i gasglu barn y cleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o gyflawni'r rheoliadau a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill, er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i'r ystafell ddadheintio, yr ystafell driniaeth a chofnodion clinigol y cleifion.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Roedd un toiled i'w ddefnyddio gan gleifion a staff gwrywaidd a benywaidd. Roedd arwyddion ar gyfer y cyfleuster ac roedd yn amlwg yn lân. Fodd bynnag, nid oedd bin gwaredu gwastraff iechydol wedi'i ddarparu.

Cawsom ein hysbysu gan y practis nad oedd profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal. Fodd bynnag, cadarnhaodd y practis fod yr holl ddyfeisiau cludadwy yn cael eu profi'n weledol yn rheolaidd. Gwnaethom argymell bod y practis yn trefnu i'r holl ddyfeisiau cludadwy gael eu profi er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau o amgylch yr adeilad a gwelsom fod y cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd tân yn glir a gweladwy. Cawsom ein hysbysu bod y gwasanaeth cynnal offer tân ar fin cael ei adnewyddu, ynghyd â'r cytundeb cynnal a chadw nwy. Cytunodd y practis i wneud hyn. Roedd y poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Nodwyd bod angen disodli llyfr damweiniau'r practis gyda llyfr 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), a fyddai'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Gwelsom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd unrhyw rai mewn ardaloedd cyhoeddus.

Gwelsom fod gan y practis system i reoli gwastraff mewn dull priodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith er mwyn cael gwared â gwastraff peryglus (clinigol). Gwelsom hefyd fod y gwastraff peryglus yn cael ei wahanu i'r bagiau / cynwysyddion lliw penodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd caead ar y bin gwastraff clinigol yn y practis a gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau eu bod yn gosod caead ar y bin.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod bin gwaredu gwastraff iechydol yn cael ei ddarparu yn y toiled i gleifion/staff.

Sicrhau bod yr holl ddyfeisiau cludadwy yn cael eu profi.

Sicrhau bod unrhyw ddamweiniau yn cael eu cofnodi yn y llyfr RIDDOR cymeradwy.

Anfon y cytundebau newydd ar gyfer y gwasanaethau cynnal a chadw ar yr offer nwy a thân at AGIC.

Sicrhau bod caead yn cael ei osod ar y bin clinigol yn yr ystafell driniaeth.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer glanhau a dadheintio'r cyfarpar deintyddol, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad). Fodd bynnag, nodwyd bod y llif aer yn wael a bod y diffyg gofod yn rhwystro cydymffurfiaeth lawn â WHTM 01-05. Nodwyd hefyd bod angen adnewyddu ac uwchraddio'r ystafell ddadheintio. Dywedodd y practis wrthym eu bod yn ystyried cynlluniau i adnewyddu ac uwchraddio'r cyfleusterau.

Roedd yr offer deintyddol yn cael eu glanhau â llaw. Nodwyd mai dim ond un sinc oedd ar gael yn yr ystafell ddadheintio. Mae WHTM 01-05 yn argymell y dylai bod dwy sinc ar gael ar gyfer dadheintio, un ar gyfer golchi a glanhau'r offer, yr ail ar gyfer rinsio; a sinc benodol ar gyfer golchi dwylo. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried ailgynllunio'r ystafell ddadheintio pan fyddent yn adnewyddu'r practis er mwn ei bod yn cynnwys dwy sinc neu sinc ddwbl ar gyfer dadheintio a sinc benodol ar gyfer golchi dwylo. Hyd nes y byddai dwy sinc neu sinc ddwbl yn cael eu gosod, roeddem yn argymell y dylai'r practis ddefnyddio dwy fowlen benodol yn y sinc unigol. Mae hyn er mwyn sicrhau, ar ôl glanhau'r offer yn y sinc neu'r fowlen gyntaf, y gall y gweithredwr rinsio'r offer

sydd wedi'u glanhau yn effeithlon yn yr ail sinc neu bowlen, a fydd yn lleihau'r risg o ail-halogi'r offer gyda hylifau glanhau neu lanedyddion. Nodwyd bod y sinc golchi dwylo yn yr ystafell y drws nesaf i'r practis.

Nodwyd bod y ffwrn aerglos wedi'i brynu ym mis Mawrth 2016. Mae WHTM 01-05 yn argymell gwasanaethu'r offer bob 14 mis o leiaf ac felly roedd angen gwasanaethu'r ffwrn aerglos yn ystod mis ein hymweliad i'r practis. Trefnodd y practis i wasanaethu'r ffwrn aerglos.

Dywedodd y practis wrthym nad oeddent wedi cynnal unrhyw archwiliadau rheoli heintiau. Roeddem yn argymell bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn flynyddol ac roeddem yn argymell y practis i ddefnyddio offer archwilio Deoniaeth Cymru, yn unol â WHTM 01-05.

Nodwyd hefyd nad yw'r holl offerynnau deintyddol yn cael eu storio yn unol â'u polisi cyfredol ar ddadheintio. Gwnaethom argymell i'r practis sicrhau bod yr holl offerynnau sy'n cael eu storio a'u pecynnu wedi'u dyddio'n glir, ac argymell bod y rhain yn cael eu defnyddio o fewn un mis. Gwnaethom atgoffa'r practis hefyd y dylid storio'r holl eitemau rhydd mewn droriau ac wedi'u gorchuddio mewn blychau neu wedi'u lapio'n briodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod dwy bowlen yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a rinsio yn y sinc ddadheintio.

Sicrhau bod archwiliadau rheoli heintiau Deoniaeth Cymru yn cael eu cynnal.

Sicrhau bod yr holl offerynnau deintyddol sydd wedi'u sterileiddio wedi'u pecynnu a'u dyddio'n glir.

Anfon tystysgrif gwasanaethu'r ffwrn aerglos at AGIC.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau i ddangos sut maent yn ymateb i argyfyngau meddygol cleifion a'u bod wedi'u harddangos yn yr ardaloedd perthnasol. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol a bod un aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

Roedd y cyffuriau brys yn parhau i fod yn gyfredol, roeddent wedi'u storio'n ddiogel, ac roeddent ar gael yn gyfleus pe byddai argyfwng meddygol gyda chlaf (cwymp/llewyg) yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y practis i

gofnodi dyddiadau dod i ben yr holl gyffuriau brys a'r chwistrellau/nodwyddau. Cawsom ein hysbysu bod y lefelau ocsigen yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion o hyn yn cael eu cadw. Gwnaethom argymell y practis i wirio a chofnodi'r lefelau ocsigen yn rheolaidd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Cofnodi dyddiadau dod i ben y cyffuriau brys a'r chwistrellau / nodwyddau.

Sicrhau bod y lefelau ocsigen yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n rheolaidd.

### Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Roedd gan y practis bolisi diogelu a oedd yn cynnwys plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd manylion cyswllt y tîm diogelu lleol wedi'u harddangos mewn lle amlwg yn y dderbynfa. Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Cadarnhawyd bod pob aelod o staff perthnasol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dywedodd y practis wrthym fod angen adnewyddu gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac y byddai trefniadau'n cael eu gwneud. Mae'n rhaid i bob deintydd sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC fod ag uwch wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hynny wedi'i gyhoeddi o fewn y tair blynedd diwethaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Anfon manylion tystysgrif newydd, uwch wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintydd arweiniol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafell driniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Fodd bynnag, nodwyd bod angen adnewyddu ac uwchraddio'r ystafell driniaeth. Dywedodd y practis wrthym eu bod yn ystyried cynlluniau i adnewyddu ac uwchraddio'r ystafell driniaeth.

Gwnaethom argymell bod angen rhai mesurau dros dro ar waith yn y practis nes y byddai'r gwaith adnewyddu hwn yn cael ei wneud. Gwnaethom argymell i'r practis bod angen selio ymylon y llawr a'r arwynebau gwaith er mwyn gallu glanhau yn haws a bod angen gosod teils newydd yn lle unrhyw rai sydd wedi torri.

Roedd yr holl offer radioleg wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn gweithio a gwelsom fod pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ymbelydredd ïoneiddio. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radioleg (pelydr-X) yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd yr holl waith papur ar gyfer ymbelydredd ar gael yn gyfleus ac nid oedd wedi'i gadw mewn un lle. Gwnaethom argymell bod y practis yn cadw ffeil benodol ar ddiogelwch ymbelydredd sy'n cynnwys enw'r cynghorydd diogelwch ymbelydredd, cynllun o'r ardal a reolir, cyfarwyddiadau ymarferol, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn os bydd offer yn camweithio, prosesu a storio, a chytunodd y practis i wneud hynny.

Dywedodd y practis wrthym nad oeddent wedi cynnal unrhyw archwiliadau sicrhau ansawdd ar y delweddau pelydr-X. Roedd y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer prosesu yn awtomatig. Fodd bynnag, nid oeddent yn cynnal llyfr lòg. Gwnaethom argymell bod y practis yn cynnal archwiliadau o'r delweddau pelydr-X yn flynyddol ac mae angen llyfr log ar gyfer y prosesydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid selio ymylon llawr ac arwynebau gwaith yr ystafell driniaeth er mwyn gallu eu glanhau yn haws a gosod teils newydd yn lle'r rhai sydd wedi torri.

Sicrhau bod ffeil benodol ar ymbelydredd yn cael ei defnyddio.

Dylai'r practis gynnal archwiliadau sicrwydd ansawdd blynyddol o'r delweddau pelydr-X a dynnir.

Cyflwyno llyfr lòg ar gyfer y prosesydd.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ni welsom fod rhaglen ar waith ar gyfer cynnal ystod eang o archwiliadau clinigol gyda'r nod o ganfod meysydd i'w gwella. Gwnaethom argymell bod y practis yn cyflwyno rhaglen o archwiliadau dros y flwyddyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gyflwyno amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o ganfod meysydd i'w gwella.

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd

Cawsom ein hysbysu bod rhai adolygiadau cymheiriaid rhwng y staff clinigol yn cael eu cynnal, sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i'r cleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnod o'r holl adolygiadau clinigol.

Cadarnhaodd y practis nad oeddent wedi defnyddio offeryn y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Mae'r offeryn hunan-arfarnu hwn yn galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar y ffordd maent yn gweithio ac yn galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a roddir mewn sawl maes.

Yr hyn y mae angen ei wella

Hunan-arfarnu gan ddefnyddio offeryn y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

## Gwybodaeth lywodraethu a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion papur y cleifion yn cael eu storio yn y dderbynfa. Nid oedd y rhain yn cael eu cadw mewn cwpwrdd ar glo. Fodd bynnag, mae ardal y dderbynfa yn cael ei chloi'n ddiogel gyda chaeadau gyda'r nos.

## Cadw cofnodion

Dangosodd ein hadolygiad o gofnodion y cleifion fod angen gwelliannau sylweddol i'w codi i safon uwch, yn unol â'r argymhellion yn y canllawiau clinigol proffesiynol.

Adolygwyd sampl o gofnodion y cleifion. Ar y cyfan, gwelsom nad oedd y cofnodion gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol am y trafodaethau a gynhaliwyd am ddewisiadau triniaeth, na thystiolaeth o waith cynllunio triniaeth priodol.

Nid oedd rhai o'r cofnodion yn dangos unrhyw dystiolaeth o sgrinio canser y geg na chydsyniad gwybodus. Nid oedd yr archwiliad periodontol sylfaenol yn cael ei ddiweddaru yn ystod pob ymweliad. Mae angen cofnodi amseroedd adalw (y cyfnod o amser lle bydd claf yn cael ei alw'n ôl ar gyfer archwiliad) yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Nid oedd cofnodion y cleifion yn dangos cyfiawnhad ychwaith dros gymryd delweddau pelydr-X radiograffig a gwelsom nad oedd sylwadau wedi'u hysgrifennu am y delweddau pelydr-X ac nid oeddent wedi'u graddio.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid gwella'r nodiadau clinigol, i gynnwys tystiolaeth o:

- Cofnodion o drafodaethau am driniaethau, gwaith cynllunio a gwybodaeth am yr opsiynau o ran triniaethau.
- Cofnodi cydsyniad gwybodus.
- Cofnodi hanes cymdeithasol ar ddefnyddio alcohol a smygu.
- Cofnodi archwiliadau periodontol sylfaenol.
- Cofnodi unrhyw sgrinio meinwe meddal a chanser y geg.
- Cofnodi amseroedd adalw yn unol â chanllawiau NICE.
- Mae'n rhaid cyfiawnhau, adrodd ar a graddio pob delwedd pelydr-X radiograffig yng nghofnodion y cleifion.
- Cofnodi dyddiad swp a dyddiad dod i ben anesthetig lleol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Ar y cyfan, nodwyd bod angen gwelliannau i'r dulliau o lywodraethu a rheoli'r practis. Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau nac unrhyw wiriadau sicrwydd ansawdd.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Dental Surgery Sinervo yn bractis teuluol sydd wedi darparu gwasanaethau i gleifion ym Methesda ers 1999. Mae'n bractis sy'n gyfan gwbl breifat.

Y prif ddeintydd sy'n gyfrifol am weithrediad y practis o ddydd i ddydd a gwelsom fod angen rhai gwelliannau i'r dulliau o lywodraethu a rheoli'r practis. Canfuom fod y practis yn ddi-drefn ac nad oedd unrhyw drefniadau systematig ar waith. Er bod gweithrediad y practis o ddydd i ddydd wedi'i ategu gan ystod o weithdrefnau clinigol, nid oedd unrhyw brosesau sicrwydd ansawdd i sicrhau bod y polisïau hyn yn cael eu cyflawni na bod y gofal a'r driniaeth a roddir i gleifion yn cael eu cyflenwi mewn ffordd ddiogel ac amserol. Gwyddom hyn am nad oeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hyn yn gyson wrth edrych ar gofnodion a pholisïau amrywiol.

### Staff ac adnoddau

#### Y gweithlu

Cawsom ein hysbysu bod y tîm yn cwrdd ar sail anffurfiol, reolaidd, i drafod unrhyw faterion. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw a gwnaethom argymell i'r practis bod angen creu cofnodion o unrhyw gyfarfodydd tîm, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Cawsom ein hysbysu hefyd nad oedd unrhyw arfarniadau staff wedi'u cynnal.

Gwelsom dystysgrif cofrestru AGIC ar gyfer y deintydd wedi'i harddangos, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom dystiolaeth o statws imiwneiddio yn erbyn Hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd mewn grym yn y practis. Nid oedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu wedi'u rheoli gan fersiynau ac nid oedd rhai wedi cael eu hadolygu ers nifer o flynyddoedd. Gwnaethom argymell y dylai'r practis sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu eu bod wedi'u rheoli gan fersiynau, a sicrhau bod pob aelod o staff yn llofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Gwelsom fod y practis yn arddangos enw a chymhwyster y prif ddeintydd, ynghyd â gwybodaeth am amseroedd agor y practis a'r manylion cyswllt brys.

Cadarnhawyd bod pob aelod o staff perthnasol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Cynnal arfarniadau staff yn flynyddol.

Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu eu bod wedi'u rheoli gan fersiynau, a sicrhau bod pob aelod o staff yn llofnodi'r polisïau a gweithdrefnau er mwyn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau sydd eu hangen a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad ac mae angen i'r gwasanaeth gymryd camau gweithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Mae'n cynnwys crynodeb ynghylch unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae'n cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae'n cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylder i ddarparu AGIC a'r cyhoedd â sicrwydd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau/unedau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith/yr effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
| --- | --- | --- | --- |
| Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella brys

## Gwasanaeth: Dental Surgery Sinervo

## Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni chyflwynwyd unrhyw ofynion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Dental Surgery Sinervo

## Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r practis gynnig deunyddiau hybu iechyd deintyddol ar ffurf posteri a thaflenni. | Canllaw y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 11.4.2 | Bydd deunyddiau hybu iechyd yn cael eu cynhyrchu a'u harddangos ar ffurf posteri a thaflenni. | Dr. Pekka Sinervo | Erbyn 31.7.16 |
| Mae angen i'r deintydd sicrhau bod ffurflenni hanes meddygol y cleifion yn cael eu cydlofnodi ym mhob apwyntiad triniaeth. | Canllaw y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1.1 a 4.1.2 | Bydd ffurflenni hanes meddygol y cleifion yn cael eu hadolygu a'u cydlofnodi yn ystod pob apwyntiad triniaeth. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu nodi a'u diweddaru ar y ffurflen yn unol â hynny. | Dr. Pekka Sinervo | Erbyn 31.7.16 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r practis gyflwyno ffeil gŵynion benodol i gofnodi'r holl gŵynion ffurfiol ac anffurfiol. | Canllaw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1 | Bydd ffeil gŵynion yn cael ei chadw a'i chyflwyno i gofnodi'r holl gŵynion posibl. | Dr. Pekka Sinervo | Cwblhawyd 7.7.17 |
| Cyflwyno proses ffurfiol i gasglu barn y cleifion. | Canllaw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol Safon 2.1 | Gwella'r broses o gyfathrebu gyda'r cleifion er mwyn iddynt gael amser i ystyried gwybodaeth a mynegi eu hanghenion unigol. | Dr. Pekka Sinervo | Parhaus.<br>Dechreuodd 1.7.17 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Sicrhau bod bin gwaredu gwastraff iechydol yn cael ei ddarparu yn y toiled i gleifion/staff. | Rheoliadau'r Gweithlu (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 | Mae bin gwaredu gwastraff iechydol wedi'i ddarparu yn y toiledau ar gyfer cleifion a staff. Mae hyn yn darparu ffordd benodol a hylan o gael gwared ar wastraff iechydol. | Anna Sinervo | Cwblhawyd 3.7.17 |
| Sicrhau bod yr holl ddyfeisiau cludadwy yn cael eu profi. | Rheoliadau Trydan yn y | Bydd pob dyfais gludadwy yn cael ei phrofi. | Dr. Pekka | O fewn mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithle 1989 a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | | Sinervo | |
| Sicrhau bod unrhyw ddamweiniau yn cael eu cofnodi yn y llyfr RIDDOR cymeradwy. | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Mae llyfr cymeradwy RIDDOR wedi'i brynu a'i weithredu. | Dr. Pekka Sinervo | Cwblhawyd 3.7.17 |
| Anfon y cytundebau newydd ar gyfer gwasanaethau cynnal a chadw offer nwy a thân at AGIC. | Rheoliadau Diogelwch Nwy 1998 | Bydd tystysgrifau ar gyfer gwasanaethu offer nwy a thân yn cael eu cynhyrchu a'u hanfon at AGIC. | Dr. Pekka Sinervo | O fewn mis |
| Sicrhau bod caead yn cael ei osod ar y bin clinigol yn yr ystafell driniaeth. | Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2000 | Mae caead wedi'i osod ar y bin clinigol yn yr ystafell driniaeth. | Anna Sinervo | Cwblhawyd 3.7.17 |
| Sicrhau bod dwy fowlen yn cael eu defnyddio ar | WHTM 01-05, | Mae'r ddwy fowlen wedi'u cyflwyno ac | Anna Sinervo | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gyfer glanhau a rinsio yn y sinc ddadheintio. | Adran 2.24 Nodyn | yn cael eu defnyddio wrth olchi a rinsio yn y sinc ddadheintio. | | 3.7.17 |
| Sicrhau bod archwiliadau rheoli heintiau Deoniaeth Cymru yn cael eu cynnal. | WHTM 01-05 Adran 2.23 | Bydd archwiliadau rheoli heintiau Deoniaeth Cymru yn cael eu cynnal gan ddefnyddio’r offer a’r ffurflenni archwilio priodol i gydymffurfio â WHTM 01-05. | Anna Sinervo | Parhaus. I’w gwblhau erbyn diwedd Medi. |
| Sicrhau bod yr holl offerynnau deintyddol sydd wedi’u sterileiddio wedi’u pecynnu a’u dyddio’n glir. | WHTM 01-05, Adran 24, K | Mae’r holl offerynnau deintyddol sydd wedi’u sterileiddio wedi’u pecynnu a’u dyddio’n glir. | Anna Sinervo | Cwblhawyd a pharhaus |
| Anfon tystysgrif gwasanaethu’r ffwrn aerglos at AGIC. | WHTM 01-05, Adran 4.13 | Bydd tystysgrif gwasanaethu’r ffwrn aerglos yn cael ei darparu gan Prestige Medical at AGIC. | Dr. Pekka Sinervo | Parhaus. Anfonir y dystysgrif o fewn mis. |
| Cofnodi dyddiadau dod i ben y cyffuriau brys a’r chwistrellau / nodwyddau. | Canllaw’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol | Mae llyfr lòg dyddiadau dod i ben wedi’i gynhyrchu ac mae dyddiadau dod i ben cyffuriau brys a chwistrellau / nodwyddau yn cael eu cofnodi ar | Dr. Pekka Sinervo | Cwblhawyd 3.7.17 a pharhaus |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Adran 1.5.3 | ddechrau bob wythnos (bore Llun). | | |
| Sicrhau bod y lefelau ocsigen yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n rheolaidd. | Canllaw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adran 1.5.3 | Mae lefelau ocsigen yn cael eu gwirio ar ddechrau bob wythnos (bore Llun). Mae'r lefelau yn cael eu cofnodi mewn llyfr log. | Dr. Pekka Sinervo | Cwblhawyd 3.7.17 a pharhaus |
| Anfon manylion tystysgrif newydd, uwch wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintydd arweiniol at AGIC. | Rheoliad 13 (3) (c) Atodlen 2 | Bydd tystysgrif newydd, uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei darparu gan UKCRB a bydd yn cael ei hanfon at AGIC. | Dr. Pekka Sinervo | I'w gwblhau o fewn mis. |
| Dylid selio ymylon llawr ac arwynebau gwaith yr ystafell driniaeth er mwyn gallu eu glanhau yn haws a gosod teils newydd yn lle'r rhai sydd wedi torri. | WHTM 01-05, Adran 6.47, 6.48 | Bydd seliau'r lloriau a'r arwynebau gwaith yn cael eu harchwilio a bydd cynlluniau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer y newidiadau angenrheidiol. Bydd teils sydd wedi torri yn cael eu tynnu a'u disodli. | Dr. Pekka Sinervo | Dechrau ar hyn erbyn diwedd Medi. |
| Sicrhau bod ffeil benodol ar ymbelydredd yn cael ei defnyddio. | IR(ME)R 2000 | Bydd ffeil benodol ar ymbelydredd yn cael ei defnyddio er mwyn cydymffurfio'n llawn ag IR(ME)R 2000. | Dr. Pekka Sinervo | I'w gwblhau o fewn mis. |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r practis gynnal archwiliadau sicrwydd ansawdd blynyddol o'r delweddau pelydr-X a dynnir. | IR(ME)R 2000 | Bydd archwiliadau sicrwydd ansawdd yn cael eu cynnal o ansawdd y delweddau gan ddefnyddio offer a ffurflenni archwilio priodol. | Dr. Pekka Sinervo | Dechrau ar hyn erbyn diwedd Medi. |
| Cyflwyno llyfr lòg ar gyfer y prosesydd. | IR(ME)R 2000 | Cyflwynwyd llyfr lòg ar gyfer y prosesydd a gwneir cofnodion rheolaidd yn nodi dyddiadau ailgyflenwi ac amnewid toddiadau prosesu. | Dr. Pekka Sinervo | Cwblhawyd 3.7.17 a pharhaus. |
| Dylai'r practis gyflwyno amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o ganfod meysydd i'w gwella. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008, Adran 16A (1) | Cyflwynir archwiliadau clinigol amrywiol i wella meysydd gwan. Defnyddir offer archwilio priodol. Bydd meysydd fel cydweithrediad a chydymffurfiaeth, cyfathrebu a gwybodaeth am gleifion, yn cael eu cynnwys, yn ogystal â nifer o feysydd eraill. | Dr. Pekka Sinervo | Dechrau ar hyn erbyn diwedd mis Medi. |
| Hunan-arfarnu gan ddefnyddio offeryn y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | Deoniaeth Cymru | Bydd hunan-arfarniad yn cael ei gwblhau gan ddefnyddio offeryn y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | Dr. Pekka Sinervo | I'w gwblhau erbyn diwedd mis Medi. |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n rhaid gwella'r nodiadau clinigol, i gynnwys tystiolaeth o:<br>Cofnodion o drafodaethau am driniaethau, gwaith cynllunio a gwybodaeth am yr opsiynau o ran triniaethau.<br>• Cofnodi cydsyniad gwybodus.<br>• Cofnodi hanes cymdeithasol ar ddefnyddio alcohol a smygu.<br>• Diweddaru hanes meddygol cleifion a'i lofnodi yn ystod pob ymweliad.<br>• Cofnodi archwiliadau periodontol sylfaenol.<br>• Cofnodi unrhyw sgrinio meinwe meddal a chanser y geg.<br>• Cofnodi amseroedd adalw yn unol â chanllawiau NICE.<br>• Mae'n rhaid cyfiawnhau, adrodd ar a graddio pob delwedd pelydr-X radiograffig yng nghofnodion y | Canllaw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Safon 4 | Bydd nodiadau clinigol wedi'u gwella i ddangos tystiolaeth o'r wybodaeth a amlinellir bob amser. | Dr. Pekka Sinervo | Cwblhawyd 3.7.17 a pharhaus. |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| cleifion.<br>• Cofnodi dyddiad swp a dyddiad dod i ben anesthetig lleol. | | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu cofnodi'n ffurfiol. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Safon 6 | Bydd cofnodion ffurfiol yn cael eu cadw o'r holl gyfarfodydd tîm a bydd cofnodion yn cael eu gwneud o'r cyfarfodydd. | Dr. Pekka Sinervo | Parhaus. |
| Cynnal arfarniadau staff yn flynyddol. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Safon 6 | Cynhelir arfarniadau staff yn flynyddol gan ddefnyddio'r ffurflenni arfarnu priodol. | Dr. Pekka Sinervo | Dechrau ar hyn erbyn diwedd mis Medi. |
| Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu eu bod wedi'u rheoli gan fersiynau, a sicrhau bod pob aelod o staff yn llofnodi'r polisïau a | | Bydd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu yn flynyddol o leiaf. Bydd pob polisi a gweithdrefn yn cael eu llofnodi gan bob aelod o staff yn | Dr. Pekka Sinervo | Cwblhawyd 3.7.17. Parhaus. |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gweithdrefnau er mwyn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall. | | flynyddol ac ar ôl pob adolygiad. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Dr. Pekka Sinervo**

**Swydd:** **Prif Ddeintydd**

**Dyddiad:** **10.7.2017**